

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau mwy o amrywiaeth ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol.

Roeddwn wedi ei gwneud yn glir y byddai'r gwerthusiad o'r gwaith a gyflawnwyd yng ngham un ein Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn cael ei ddefnyddio fel sail i'n cynlluniau ar gyfer cam dau'r rhaglen honno, er mwyn adeiladu ar ei llwyddiannau a datblygu cyfleoedd newydd i helpu unigolion sy'n awyddus i gefnogi eu cymunedau. Roeddwn i hefyd yn glir na ddylid edrych ar y gwerthusiad fel rhywbeth unigol. Cyhoeddwyd llawer o adroddiadau sy'n nodi rhwystrau i gyfranogi, ac sy'n cyfeirio at gyfleoedd i oresgyn neu leihau'r rhwystrau hynny.

Yn hydref 2019, sefydlais Grŵp Cynghori'r Gweinidog, a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol, i weithio mewn partneriaeth i ystyried y dystiolaeth a ddarperir gan y [Gwerthusiad o gam un y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth](#). Ochr yn ochr â hynny, bu'r grŵp yn ystyried dau adroddiad arall, sef adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar [Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol](#) ac adroddiad y Bwrdd Taliadau ar [Ddadansoddi Amrywiaeth: Rhwystrau a chymhellion i sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#).

Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd nifer o weithdai ledled Cymru i drafod amryw o bynciau a oedd yn ymwneud â bod yn gynghorydd, gan gynnwys cyfathrebu ac ymwybyddiaeth, hyfforddiant a datblygiad, taliadau cydnabyddiaeth, gweithio mewn modd diogel a hyblyg, a chymorth a dargedir. Y gwerthusiad o'r adroddiadau, ynghyd â'r adborth o'r gweithdai, sydd wedi darparu'r sail ar gyfer cam dau ein Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Er gwaethaf yr oedi a achoswyd gan yr angen i flaenoriaethu wrth ymateb i'r pandemig COVID-19, mae'n dda gennyf allu cadarnhau'r gwaith y byddwn yn bwrw ymlaen ag ef fel rhan o gam nesaf y rhaglen hon.

Mae'n bwysig cydnabod nad cychwyn ar ein taith yr ydym, ond yn hytrach yn ei pharhau â'r gwaith hwn. Rydym eisoes wedi gweld cynnydd o ran cyflawni ein hymrwymiad i gefnogi mwy o amrywiaeth, yn benodol:

- Ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno absenoldeb teuluol ar gyfer cynghorwyr yn y prif awdurdodau, er mwyn galluogi unigolion i gydbwysu'r rolau pwysig y maent yn eu chwarae mewn cymdeithas â'u cyfrifoldebau fel rhieni.
- Hefyd, ni oedd y wlad gyntaf i gyflwyno arolwg ar gyfer ymgeiswyr ac aelodau etholedig mewn etholiadau llywodraeth leol, er mwyn casglu data pwysig am amrywiaeth yr ymgeiswyr a'r cynghorwyr hynny. Mae'r arolwg hwn wedi cael ei gynnal ddwywaith hyd yn hyn, ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o'i wella.

Ni fyddai wedi bod yn bosibl cymryd unrhyw un o'r camau hyn heb gydweithrediad a chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Un Llais Cymru, cynghorau, a chynghorwyr, a'r trydydd sector, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gofnodi fy niolch iddynt am eu cyfraniad a'u cymorth parhaus.

Yn yr ysbryd hwn yr ydym yn cychwyn ar ran nesaf ein taith.

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed tuag at sefydlu cronfa i gefnogi pobl anabl sy'n awyddus i fod yn ymgeiswyr ar gyfer swyddi etholedig, er mwyn sicrhau nad fydd y costau y maent yn gorfod eu talu o ganlyniad i'w gofynion mynediad neu gyfathrebu yn cyfrif tuag at derfyn eu costau ffurfiol. Mae hynny wedi golygu y bu'n rhaid gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth, ac rydym yn disgwyl i'r newidiadau hynny gael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, gan ei wneud yn bosib rhoi'r gronfa ar waith.

Heddiw, mae'n bleser gennyf gyhoeddi y byddwn yn ymgynghori ar fanylion y trefniadau hyn maes o law. Bydd y gronfa yn cael ei sefydlu fel cynllun peilot ar y cyd i gefnogi ymgeiswyr anabl sy'n awyddus i gael eu hethol yn etholiadau llywodraeth leol 2022 ac etholiadau'r Senedd 2021. Rwyf wedi gofyn i Anabledd Cymru weithio gyda ni i ddatblygu manylion y trefniadau ac i symud y prosesau cymorth, asesu, a dyrannu yn eu blaen fel rhan o'r trefniadau peilot. Cynhelir gwerthusiad o'r trefniadau er mwyn inni allu eu gwella yn y dyfodol. Caiff deddfwriaeth ei chyflwyno yn hwyrach yn ystod y flwyddyn i eithrio'r costau hyn o gostau'r ymgeiswyr ar gyfer y ddwy set o etholiadau.

Roedd yr adborth o'r gweithdai a gynhaliwyd ar draws Cymru wedi bod yn glir ei neges nad yw cynghorwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi na'u parchu. Nid ydynt yn credu bod unigolion yn deall rôl y cynghorydd a'r cyfraniad pwysig y mae'n ei wneud ar ran y gymuned. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn teimlo bod disgwyl afrealistig ar gynghorwyr i fod ar gael bob awr o'r dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae'r adborth hwn yn adlewyrchu'r sgysiau rwyf wedi eu cael gydag unigolion ledled Cymru, ac yn ystod y cam nesaf byddaf yn comisiynu gwaith i ymchwilio'n fanylach i'r materion hyn.

Hefyd, mae'r camau yn yr atodiad cysylltiedig yn cynnwys meysydd yr ydym am roi sylw iddynt drwy Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sydd ar ei daith drwy'r Senedd ar hyn o bryd:

- y cyfle i rannu swydd wrth gyflawni rhai swyddi yn y prif gynghorau (gan gynnwys swyddi aelod gweithredol ac arweinydd gweithredol)
- dyletswydd ar y prif gynghorau i gyhoeddi cyfeiriad post a chyfeiriad electronig ar gyfer gohebiaeth pob aelod o'r cyngor
- dyletswydd ar y prif gynghorau i gynhyrchu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, a'i hadolygu'n rheolaidd
- dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg aelodau eu grŵp
- darlledu rhai cyfarfodydd yn electronig
- ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd awdurdodau lleol
- sicrhau darpariaethau sy'n nodi'r cyfnod hiraf posib o absenoldeb ar gyfer pob math o absenoldeb teuluol, ar gyfer aelodau awdurdodau lleol, a'r cyfnod i gael ei bennu o fewn rheoliadau er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyfredol.

Byddwn hefyd yn:

- Cynyddu'r cyfleoedd hyfforddiant a datblygu sydd ar gael i gynghorwyr
- Sicrhau bod cymaint o gydbwysedd â phosibl rhwng bywyd a gwaith drwy gynyddu'r defnydd o bresenoldeb o bell
- Ymchwilio i'r defnydd o gwotâu rhywedd
- Sicrhau bod cynghorwyr, a'u teuluoedd, yn ddiogel wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau

Cafodd y rhaglen hon ei datblygu ar y cyd â'r teulu llywodraeth leol ehangach. Bydd CLIC ac Un Llais Cymru yn cydweithio i adolygu eu protocolau ar barch a chymorth i gynghorwyr ledled Cymru. Maent yn cynnal adolygiad o'u rhaglenni hyfforddi presennol yng ngoleuni'r adborth o'r gweithdai a oedd yn trafod meysydd ychwanegol megis gweithio ar eich pen eich hun. Maent hefyd yn ystyried sicrhau bod y cyfleoedd gorau posibl ar gael i ddysgu ar y cyd a chryfhau'r cysylltiadau rhwng gwahanol haenau llywodraeth leol.

Mae CLILC hefyd yn gweithio gyda sefydliadau partner ar draws y DU ar yr ymgyrch Moesgarwch mewn Bywyd Cyhoeddus, a bydd Un Llais Cymru yn diweddarau ei ganllawiau ar 'fod yn gynghorydd lleol' i'w defnyddio yn yr etholiadau nesaf.

Mae sefydliadau yn y trydydd sector wrthi'n datblygu cynllun monitro ar gyfer Cymru gyfan, sydd â'r nod o ddarparu cyngor, arweiniad, a chymorth i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i'w helpu i gymryd rhan weithredol ym maes gwasanaeth cyhoeddus.

Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn gymryd y camau pwysig hyn i wella'r cyfleoedd sydd ar gael i unigolion gymryd rhan mewn democratiaeth leol; codi proffil cynghorwyr ar draws Cymru; a harneisio'r ysbryd sy'n bodoli o fewn ein cymunedau, a ddaeth mor amlwg yn y frwydr yn erbyn COVID-19 yn ddiweddar.

Is-grŵp o'r Grŵp Llywio ar gyfer Adnewyddu Democratiaeth fydd yn goruchwyllo'r rhaglen hon.

Written statement from the Minister for Housing and Local Government

This Welsh Government is committed to increasing diversity across all aspects of public life. This includes tackling the barriers which prevent individuals' active participation in local democracy.

I have been clear the evaluation of phase one of our Diversity in Democracy work would form the foundation of our plans for phase two of the programme; building on its successes and developing new opportunities to assist individuals in supporting their communities. I was also clear the evaluation should not be seen in isolation. There are many reports published which identify barriers to participation and signpost opportunities to overcome, or at the very least mitigate those barriers.

In autumn 2019 I established a Ministerial advisory group made up of key stakeholders to work in partnership and consider the evidence available from the [Evaluation of phase one of the Diversity in Democracy programme](#). Alongside this they considered two other reports - the Equality, Local Government and Communities Committee's report on [Diversity in Local Government](#) and the Remuneration Board's report [Unpacking diversity: Barriers and incentives to standing for election to the National Assembly for Wales](#).

In addition, a number of workshop events were held across Wales which explored a range of subjects relating to becoming a councillor including communication and awareness, training and development, remuneration, safe and flexible work and targeted support. The evaluation of the reports coupled with the feedback from the workshops provided the basis for phase two of our Diversity in Democracy programme.

Although delayed by the need to prioritise action to combat the Covid-19 pandemic, I am pleased to confirm the work we will be taking forward as part of the next phase of this programme.

It is important to recognise that this is not the beginning of our journey, it is a continuation. We have already delivered on our commitment to support greater diversity. In particular we were:

- The first country in the UK to introduce family absence for councillors in principal authorities to enable individuals to balance the important roles they play in society with their responsibilities as parents.
- Also the first country to introduce a survey for candidates and elected members at local government elections to gather important data about the diversity of candidates and councillors, this survey has been conducted twice and we continue to look for ways to improve it.

None of these steps could have been taken without the cooperation and collaboration of the Welsh Local Government Association (WLGA), One Voice Wales, councils and councillors and the third sector and I would like to take this opportunity to put on record my thanks for their continued contribution and support.

It is within this spirit the next phase of this journey begins.

We have been working hard to introduce arrangements for the establishment of a fund to support disabled candidates who wish to put themselves forward for elected office and that the expenses they incur, as a result of their access or communication requirements, do not count towards the formal expenses limit. This has required us to make changes to legislation and we expect these changes to be completed by the end of the year, paving the way for a fund.

I am pleased to announce today that we will be consulting shortly about the detail of these arrangements. The fund we are establishing will be a joint pilot to support disabled candidates seeking election for both the 2022 local government and the 2021 Senedd elections. I have asked Disability Wales to work with us in developing the details of the arrangement and to take forward the support, assessment and allocation processes as part of the pilot arrangements. An evaluation of the arrangements will be undertaken to inform future arrangements. Legislation will be tabled later this year to exclude these expenses from candidates' expenses for both sets of elections.

Feedback from the workshops across Wales identified a strong message that councillors do not feel valued and respected. They do not believe individuals across Wales understand the role of the councillor and the important contribution they make on behalf of communities. Participants also felt there was an unrealistic expectation placed upon councillors to be available at all hours of the day, seven days of the week. This feedback aligns with conversations I have had with individuals across Wales and as part of the next phase of this work I will be commissioning work which will explore these matters in more detail.

In addition the actions in the accompanying annex include areas we are aiming to address through the Local Government and Elections (Wales) Bill ("the LGE Bill") currently progressing through the Senedd:

- job sharing in some offices in principal councils (including the offices of executive member and executive leader);
- a duty on principal councils to publish an electronic and postal address for correspondence for each council member;
- a duty on principal councils to produce a Public Participation Strategy and for it to be reviewed regularly;
- a duty on political group leaders to promote and maintain high standards of conduct by members of their group;
- electronic broadcasting of certain meetings;
- extended provision for remote attendance at local authority meetings;
- Provisions enabling the maximum period of absence for each type of family absence for members of local authorities to be specified within regulations to enable the provision to be kept up to date.

We will also be:

- Increasing the training and development opportunities available for councillors;
- Maximising the use of work life balance by increasing the use of remote attendance;

- Exploring the use of gender quotas and,
- Ensuring councillors and their families are safe when undertaking their duties.

This programme has been developed in conjunction with the wider local government family. The WLGA and One Voice Wales will be working together to revise their protocols on respect and support for councillors across Wales. They are undertaking a review of their existing training programmes in light of feedback from the workshops on additional areas of focus such as lone working. They are also considering maximising opportunities for joint learning and strengthening links between the tiers of local government.

The WLGA are also working with partner organisations across the UK on the Civility in Public Life campaign, whilst One Voice Wales will be updating their “being a local councillor” guide for use at the upcoming elections.

Third sector organisations are developing an all Wales mentoring scheme which is aimed at providing advice, guidance and support to under-represented groups to help them actively participate in public service.

Working together we will take these important steps to improve the opportunities available for individuals to participate in local democracy, raise the profile of councillors across Wales and harness the spirit that exists within communities, as demonstrated by the recent COVID-19 experiences.

The oversight of this programme will be undertaken by a sub group of the Democratic Renewal Steering Group.